Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: 25 Tachwedd 2009

Teitl: CCAUC yn croesawu'r cynllun addysg uwch *Er Mwyn ein Dyfodol*

Heddiw mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) wedi croesawu cyhoeddi *Er Mwyn ein Dyfodol – Cynllun addysg uwch yr unfed ganrif ar hugain i Gymru*.

Mae'r cynllun, a gynhyrchwyd yn sgil adolygiad o addysg uwch (AU) yng Nghymru dan gadeiryddiaeth yr Athro Merfyn Jones, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor, yn cydnabod y rhan allweddol a chwaraeir gan AU yn natblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru.

Yn y cynllun, manylir ar yr hyn y mae disgwyl i addysg uwch ei gyflawni, gan ganolbwyntio'n arbennig ar flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad, sef cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi ffyniannus.

Meddai Roger Thomas, Cadeirydd CCAUC: "Mae'r Gweinidog Addysg wedi nodi'n glir mor allweddol yw addysg uwch i ddyfodol Cymru ac wedi gosod wrth ddrws pob darparwr yr her o ail-lunio a rhesymoli'r system AU fel y gall gwrdd ag anghenion Cymru'n well. Mae hi wedi rhoi'r dasg o weithredu'r weledigaeth hon i CCAUC – her yr ydym ni'n ei chofleidio'n wresog."

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'r cynllun yn pwysleisio sut mae addysg uwch yn cyfrannu at adferiad a datblygiad economaidd, yn ogystal â'i chyfraniad cymdeithasol a diwylliannol llawn cyn bwysiced. Mae'n pwysleisio'r angen i AU ganolbwyntio ar fodloni anghenion pobl

Cymru, ond yn cydnabod na all wneud hyn heb fod yn rym effeithiol ar y llwyfan rhyngwladol.

“Bydd yn her fawr i gadw’r cydbwysedd hwn, ac i ddatblygu’r strategaeth ranbarthol a amlinellir yn y cynllun, sy’n gofyn i bob darparwr AU fanteisio ar ei gryfderau arbennig mewn ffordd gydlynol. Ond mae’n her y mae CCAUC mewn sefyllfa dda i gwrdd â hi ac edrychwn ymlaen at weithio gyda’r darparwyr addysg uwch yng Nghymru i wireddu gweledigaeth y Gweinidog.”

Mae CCAUC wedi cael y dasg o ddarparu manylion y gweithredoedd, mesurau ac amserlenni ar gyfer cyflawni’r cynllun erbyn y Gwanwyn 2010.
Diwedd

Nodiadau:

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae’n gyfrifol am weinyddu’r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â’i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.